**ATODIAD 1**

**Nodyn ar y 4 argymhelliad i gyrff cyhoeddus yn unig yn adroddiad "Cenedlaethau'r Dyfodol 2025".**

Er mai argymhellion ar gyfer Cyrff Cyhoeddus nad ydynt yn cynnwys Llywodraeth Cymru oedd y rhai isod, rwy'n mynegi fy nghefnogaeth iddynt ac yn annog Cyrff Cyhoeddus i weithio'n gadarnhaol tuag at eu gweithredu. Mae'r llywodraeth hon yn ymrwymo i helpu Cyrff Cyhoeddus i weithio tuag at y rhain.

*Argymhelliad 19: Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, i roi'r model cymdeithasol o iechyd, creu lleoedd a/neu egwyddorion Marmot ar waith i wella'r camau gweithredu ar y penderfynyddion ehangach a lleihau anghydraddoldebau yn eu hardaloedd.*

*Argymhelliad 21: Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio asesiadau llesiant y BGC ac asesiad anghenion poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i nodi'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol yn eu poblogaethau a datblygu cynlluniau wedi'u targedu i gau'r bwlch tegwch mewn canlyniadau iechyd.*

*Argymhelliad 26: Dylai pob corff cyhoeddus a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru ac integreiddio ei hegwyddorion yn eu gwaith.*

*Argymhelliad 35: Erbyn 2027 rhaid i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus ymrwymo i gynllun ar sut y byddant yn cyflawni achrediad Cyflog Byw go iawn.*

**Tabl 1: Ymatebion i'r 46 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn adroddiad "Cenedlaethau'r Dyfodol 2025" Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

| **Cenhadaeth Gweithredu ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 1. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau ei heffaith ac i baratoi ar gyfer diweddariadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn 2030. Dylai'r adolygiad | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn ar hyn o bryd. Yn dilyn canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, ac ystyriaethau gwerthuso mewnol o ran cynllunio a chostau, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gofyniad hwn ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| hwn gynnwys deialog cyhoeddus i ymgysylltu â phobl ledled Cymru wrth lunio dyfodol polisi llesiant. | | |
| 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu a symleiddio strwythurau partneriaeth er mwyn lleihau cymhlethdod a gwella cydgysylltu ledled Cymru. | Derbyn mewn egwyddor | Mae llywodraethiant cenedlaethol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i adnewyddu ac rydym yn bwriadu edrych ar symleiddio'r berthynas rhyngddynt a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Mwy o ymgysylltu ag arweinwyr cyrff cyhoeddus gan gynnwys trafodaethau ar y Ddeddf. Bydd adolygiadau yn penderfynu a fydd yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn ai peidio. |
| 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai'r Prif Weinidog sy'n parhau i fod yn gyfrifol am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Derbyn mewn egwyddor | Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn parhau i fod yn gyfrifol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer tymor y Senedd hon. Ar ôl yr etholiad mae hwn yn benderfyniad gwleidyddol a bydd y Prif Weinidog yn penderfynu arno ar ôl yr etholiad. |
| 4. Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am feysydd newid corfforaethol yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd sy'n gwella ansawdd a chysondeb gweithredu drwy hyfforddiant gorfodol a datblygu gallu. | Derbyn | Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llywodraeth Cymru pan gaiff ei ddiweddaru, ac yn cael ei gryfhau hefyd yn ein canllawiau a'n hymgysylltiad â Chyrff Cyhoeddus. Mae cyflawni'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag argymhelliad 4 "Dim Amser i'w Golli" Archwilydd Cyffredinol Cymru: Gwersi o'n gwaith o dan adroddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae hyfforddiant gorfodol yn gofyn am gynnal cydbwysedd rhwng pwysau cyflawni a gwneud y Ddeddf yn rhan integredig o rolau pobl i sicrhau ymgysylltu ystyrlon â dysgu a datblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 5. Rhaid i gyrff cyhoeddus ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd er mwyn meithrin ymddiriedaeth, cryfhau consensws, a phontio'r bwlch rhwng llunio polisïau a dinasyddion. | Mabwysiadwyd | Mewn perthynas â llywodraeth leol - o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*, rhaid i gynghorau gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau bod pobl leol yn gallu dylanwadu ar bolisïau sy'n effeithio arnynt, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth a chryfhau ymgysylltu democrataidd.<br><br>O ran mwy o gyfranogiad mewn cyrff cyhoeddus yn ehangach, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau ehangach i gyrff cyhoeddus, yn ogystal â thrwy ddiwygio'r llythyrau cylch gwaith. Bydd cyfleoedd eraill i Lywodraeth Cymru gryfhau'r ffordd mae Cyrff Cyhoeddus yn cryfhau cyfranogiad dinasyddion yn cael eu harchwilio yn nhymor nesaf y Senedd.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Cenhadaeth Hinsawdd a Natur** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prif darged statudol ar gyfer adferiad byd natur erbyn 2050 mewn deddfwriaeth sylfaenol erbyn 2026, gyda thargedau pellach yn adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang mewn is-ddeddfwriaeth, | Amherthnasol | Nid yw'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn gosod un prif darged ond yn hytrach yn sefydlu pedwar Nod trosfwaol a 23 Targed. Mae ein Bil yn adlewyrchu'r un dull — nodi meysydd blaenoriaeth clir sydd gyda'i gilydd yn darparu fframwaith cynhwysfawr ac uchelgeisiol ar gyfer adfer bioamrywiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| cynllun gweithredu clir a threfniadau ariannu hirdymor. | | |
| 7. Mae defnyddio ein tir yn ddoeth yn bwysicach nag erioed. Yn dilyn ei hadolygiad 5 mlynedd nesaf o Cymru'r Dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith defnydd tir a morol integredig sy'n cydbwyso ymrwymiadau i adfer natur, cefnogi cynhyrchu bwyd, gwella gwytnwch hinsawdd a darparu tai a seilwaith newydd. Dylid cyflwyno canllawiau a phecynnau cymorth i gefnogi penderfyniadau lleol i gyd-fynd â'r fframwaith. | Ystyried ar gyfer y dyfodol | Cymru'r Dyfodol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yw'r cynllun datblygu cenedlaethol statudol ar gyfer cynllunio defnydd tir daearol, fel y'i diffinnir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae ei gylch gwaith o ran y gyfraith yn rhychwantu'r marc distyll cymedrig. Felly, byddai datblygu cynllun datblygu tir a morol integredig yn gofyn am ddeddfwriaeth, a fyddai'n fater i'r Llywodraeth nesaf.<br><br>Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid o amgylch ein harfordir. Mae cydgysylltu rhwng cynllunio morol a daearol yn bwysig i gynnal a hwyluso datblygiad busnesau a mentrau cysylltiedig mewn porthladdoedd, harbyrau a marinas; cymunedau arfordirol; cyfleoedd twristiaeth; cynhyrchu ynni; a morweddau.<br><br>Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a fydd yn cael ei gryfhau gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth (Cymru). Bydd Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025 yn llywio ein hagwedd at risgiau amgylcheddol a'r Polisi Adnoddau Naturiol nesaf. |
| 8. Gan adeiladu ar y buddsoddiad mewn byrddau rheoli maetholion a fforymau arfordirol ac afonydd presennol, dylai Llywodraeth Cymru | Derbyn | Rydym yn cefnogi bwriad yr argymhelliad, sy'n cyd-fynd â'n dull presennol. Rydym yn ariannu Byrddau Rheoli Maetholion, sy'n datblygu cynlluniau ac yn olrhain y gwaith cyflawni ar gyfer atebion |

| | | |
|---|---|---|
| ehangu'r dalgylch fel penderfynwyr y gellir ymddiried ynddynt wrth adfer afonydd.<br><br>Dylai'r partneriaethau hyn ddod ag ystod amrywiol o randdeiliaid ynghyd i gyd-greu cynlluniau gweithredu ar y cyd, tra'n galluogi rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio'n fwy cydweithredol a sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor. | | ymarferol a arweinir yn lleol. Yn 2025-26 cyfeiriwyd £5 miliwn ychwanegol at gryfhau rheoleiddio a gorfodi ac mae gwaith ar y gweill gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid ar raglen 2026–27.<br><br>Mae gweithio mewn partneriaeth yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, fel y nodir yn ein Papur Gwyrdd, y byddwn yn adolygu'r ymatebion iddo cyn cadarnhau ein dull hirdymor.<br><br>Ar hyn o bryd ni fyddai'n briodol gwneud ymrwymiadau cyllido tymor hir a fyddai'n rhwymo llywodraethau'r dyfodol i gytundebau cyllido amlflwyddyn. |
| 9. O fewn tymor nesaf y Llywodraeth, mae angen deddfwriaeth i roi'r un pwerau rheoleiddio i Cyfoeth Naturiol Cymru â'i gymar yn Lloegr, gan gynnwys yr awdurdod i roi sancsiynau sifil, megis gorchmynion atal a dirwyon am weithgareddau llygru. | Derbyn mewn egwyddor | Rydym yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu pa gymorth sydd ei angen i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â'r heriau o ran mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddeddfwriaeth a allai fod yn ofynnol. Bydd unrhyw ddeddfwriaeth o fewn tymor nesaf y Llywodraeth yn fater i'r weinyddiaeth nesaf. |
| 10. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm arbenigol a thraws-sector, i gefnogi cyrff cyhoeddus i baratoi cynigion sy'n barod ar gyfer buddsoddi a all ddenu cyllid o'r sector preifat ar gyfer adfer byd natur a sero net, gan sicrhau aliniad ag egwyddorion buddsoddi cynaliadwy. | Derbyn | Rydym yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn. |
| 11. Dylai Awdurdod Cyllid Cymru gael y dasg o glustnodi dirwyon a thaliadau amgylcheddol i ariannu gweithredu | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Ar hyn o bryd mae'r cronfeydd hyn yn cyfrannu at Gronfa Gyfunol Cymru ac felly'n cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Nid yw |

| | | |
|---|---|---|
| hinsawdd a natur yn uniongyrchol. | | unrhyw gosbau a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru yn cael eu hadrodd ar wahân yn eu datganiadau ystadegol. |
| 12. O 2025 ymlaen, rhaid i gyrff cyhoeddus roi blaenoriaeth i wydnwch yn yr hinsawdd, budd net i fioamrywiaeth, a lleihau plaladdwyr yn y modd y maent yn rheoli eu hystadau, gan gynnwys eu hadeiladau, ffermydd tenantiaid, parciau, ymylon ffyrdd ac asedau tir eraill. | Derbyn | Mae Bwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnwys hyn yn y Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus (CLIP) ôl-2025 ar ei newydd wedd, ochr yn ochr â chamau gweithredu allweddol o ran Gwella Parhaus sy’n deillio o LIC2025 ac unrhyw gamau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn y CLIP gwreiddiol.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo’r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 13. Mae gan ynni adnewyddadwy lleol, gan gynnwys ynni cymunedol ac ynni cyhoeddus, ran ganolog i'w chwarae wrth gyflawni sero net. Mae angen mwy o adnoddau a chymorth yn genedlaethol. Dylai sefydliadau’r sector cyhoeddus gynyddu eu cydweithrediad â phrosiectau ynni lleol drwy ryddhau tir ar gyfer mentrau ar y cyd ac ymrwymo i brynu’r trydan. | Mabwysiadwyd | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau ynni cyhoeddus/cymunedol drwy grantiau’r Gwasanaeth Ynni ac Ynni Cymru. Bydd Trydan Gwyrdd Cymru yn datblygu prosiectau adnewyddadwy sy’n cadw buddion yng Nghymru. Mae gwaith ehangach ar bontio i ynni teg yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol ar Gynlluniau Ynni Ardal oedd Lleol.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo’r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 14. Rhaid i wydnwch ac ymaddasu yn yr hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i wasanaethau cyhoeddus. Erbyn diwedd 2027, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd ar gyfer eu cymunedau, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd fel rhan o’u hasesiadau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus | Mabwysiadwyd | Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Sero Net Llywodraeth Cymru wedi’i ymgorffori drwy fwrdd cyflawni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr lefel uchel ar draws grwpiau, gyda ffrydiau gwaith cyflenwi thematig gan gynnwys adeiladau a thir, y gadwyn gyflenwi a’r fflyd a’r seilwaith.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo’r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| integreiddio'r canfyddiadau hyn i'w cynllunio corfforaethol a strategol. | | |
| 15. Rhaid i'r sector cyhoeddus ddod yn rhydd o ddatgoedwigo erbyn 2028, gan sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo byd-eang, colli cynefinoedd neu dorri hawliau dynol, gan gynnwys llafur plant a cham-drin hawliau Pobl Gynhenid. | Mabwysiadwyd | Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r offeryn Asesu Risg Cynaliadwyedd (SRA) yn y broses gaffael i nodi a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael. Mae'r SRA yn cynnwys datgoedwigo byd-eang ac yn tynnu sylw prynwyr at y risgiau o ran cynaliadwyedd.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Cenhadaeth Iechyd a Llesiant** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo Cymru i ddod yn genedl Marmot, gan addasu model Marmot ag egwyddorion wedi'u teilwra sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant ein poblogaeth. | Mabwysiadwyd | Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymrwymiad i ddod yn Genedl Marmot yn Uwchgynhadledd Comisiwn Bevan ar 26 Mawrth 2025 ac mae swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau cyflawni allweddol i roi'r ymrwymiad hwn ar waith. |
| 17. Dylai Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG sicrhau bod atal yn cael ei wreiddio ar ddechrau pob llwybr clinigol, gyda mesurau perfformiad yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r newid hwn. | Derbyn mewn egwyddor | Fel rhan o'r elfennau allweddol i'w cyflawni sydd wedi'u nodi yn ei lythyr cylch gwaith ar gyfer 2025/26, disgwylir i Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Gweithrediaeth y GIG gynt) ddangos ffocws di-baid ar atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ar draws ei raglen waith. |

| | | |
|---|---|---|
| 18. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun i atal y cynnydd mewn gordewdra o fewn pum mlynedd, ei wrthdroi o fewn deg a chreu Cymru sy'n cefnogi pwysau iach yn ddiofyn erbyn 2035, gan leihau anghydraddoldebau. | Derbyn mewn egwyddor | Pwysau Iach, Cymru Iach yw ein strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â gordewdra a gorbwysau yng Nghymru. Mae lleihau anghydraddoldebau wrth wraidd y strategaeth, gan gydnabod bod gordewdra yn effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau llai cyfoethog |
| 20. Dylai cyrff cyhoeddus gynnwys atal fel amcan strategol craidd mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol. | Derbyn | Mae Bwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnwys hyn yn y Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus (CLIP) ôl-2025 ar ei newydd wedd. Mae'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y cyd ar ddiffiniad o atal.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Cenhadaeth Diwylliant a'r Iaith Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 22. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Diwylliant i Seithfed Tymor y Senedd (2026 - 2030), i wneud diwylliant yn ofyniad statudol ar gyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn cryfhau rôl diwylliant mewn llesiant cenedlaethol ac yn sicrhau bod diwylliant yn cael y gydnabyddiaeth a'r buddsoddiad y mae'n ei haeddu. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi datgan y dylai hyn fod yn ystyriaeth ar gyfer y Senedd nesaf. |
| 23. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i Ddeddf Hawl Cymunedol i Brynu i rymuso cymunedau i gymryd perchnogaeth o adeiladau | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio Hawl y Gymuned i Brynu. Mae bil gan y Senedd wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor nesaf. Caiff hwn ei lywio gan |

| | | |
|---|---|---|
| lleol gwerthfawr, tir, ac asedau cymunedol, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod wrth galon cymunedau ffyniannus. | | y Comisiwn Asedau Cymunedol a bydd yn cyd-fynd â datblygiada yn y DU ac argymhellion Comisiynydd Cenedlaethaur Dyfodol. |
| 24. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru benodi Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon. | Ystyried ar gyfer y dyfodol | Bydd hwn yn benderfyniad i'r weinyddiaeth yn y tymor newydd. |
| 25. Dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu cynllun clir i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi staff i fyw eu bywydau gwaith yn gynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin diwylliant dwyieithog cryfach yn y gweithle. | Derbyn | Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ofynnol i lawer o gyrff cyhoeddus ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac mae strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd* yn anelu at weithle dwyieithog erbyn 2050.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 27. Dylai pob corff cyhoeddus gynhyrchu strategaeth wirfoddoli sefydliadol mewn partneriaeth â gweithwyr a'r sector gwirfoddol i hybu gwirfoddoli ledled y wlad. | Derbyn | Buom yn gweithio gyda phob sector i ddatblygu Dull Newydd ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru, a lansiwyd yn Gofod3 ym mis Gorffennaf 2025. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad ar gyfer cyrff cyhoeddus, gan gydnabod rôl hanfodol gwirfoddoli mewn cymunedau yng Nghymru.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Cenhadaeth Economi Llesiant** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 28. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sectorau allweddol lle mae'r sector | Derbyn mewn egwyddor | Rydym yn gweithio gyda Cynnal Cymru fel partner achredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW) yng |

| | | |
|---|---|---|
| preifat yn methu â gweithredu'r Cyflog Byw gwirioneddol – a datblygu cynlluniau i roi'r Cyflog Byw gwirioneddol ar waith gyda busnesau yn y sectorau hyn. | | Nghymru i gynyddu lefelau mabwysiadau ac achredu’r RLW, gan gynnwys mewn sectorau lle mae cyffredinrwydd RLW yn gymharol isel. |
| 29. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob busnes sy’n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru yn bodloni set safonol o ymrwymiadau sy’n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Dylai hyn gynnwys achrediad Cyflog Byw gwirioneddol fel gofyniad sylfaenol. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae is-grŵp o’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ystyried ymyriadau gwaith teg i fusnesau sy’n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae pecyn cymorth llesiant wedi’i ddatblygu ac mae’n cael ei ddefnyddio i gymhwyso’r Contract Economaidd a’i egwyddorion. |
| 30. Dylai Llywodraeth Cymru osod targed i ddyblu maint y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru erbyn 2035 a pharhau i gefnogi Busnes Cymdeithasol Cymru a Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru i gyflawni hyn. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi 2,800+ o fentrau cymdeithasol drwy Busnes Cymdeithasol Cymru a Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru. Gallai dyblu’r sector erbyn 2035 roi hwb i swyddi, perchnogaeth gymunedol, arloesi a nodau sero net. |
| 31. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach i lansio Canolfan Datblygu Cydweithredol a chefnogi mentrau cymdeithasol i ehangu i gadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus a phreifat. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cymorth i fentrau cymdeithasol dyfu a mynd i mewn i gadwyni cyflenwi. Mae Busnes Cymru yn cynorthwyo caffael. Gallai ehangu’r cymorth a’i alinio â blaenoriaethau yn y dyfodol roi hwb i swyddi, asedau lleol, a thwf economaidd moesegol, cynhwysol. |
| 32. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun gweithredu ar fyrder erbyn 2027 i sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau i gyflawni trawsnewidiad cyfiawn i economi llesiant carbon isel, ac ar yr un pryd gwella canlyniadau addysgol ôl-16 | Mabwysiadwyd | Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net 2023 yn nodi 7 maes allweddol, ac mae cynnydd ar y gweill ar lwybrau sero net, uwchsgilio’r gweithlu, a diweddaru cymwysterau. Mae’r gwaith yn digwydd ar draws y llywodraeth a gyda rhanddeiliaid fel |

| | | |
|---|---|---|
| a lleihau anghydraddoldebau. | | Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Medr. |
| 33. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu comisiwn i archwilio effaith deallusrwydd artiffisial ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cynllunio'r gweithlu, a seilwaith digidol, a nodi cyfeiriad cenedlaethol clir ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial moesegol a chyfrifol. | Amherthnasol | Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ffurfio Grŵp Cynghori Strategol ar AI ac wedi cyd-ddatblygu – gyda Chyngor Partneriaeth Cymru – ganllawiau AI moesegol ar gyfer cyrff sector cyhoeddus, gan hybu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus mewn modd cyfrifol sy'n seiliedig ar werthoedd ledled Cymru. |
| 34. Rhaid i genhadaeth economaidd Llywodraeth Cymru a phedair strategaeth economaidd ranbarthol y Cydbwyllgorau Corfforaethol ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn fel y fframwaith ar gyfer cynllunio strategaethau datblygu economaidd ac wrth weithredu a mesur cynnydd. | Derbyn | Mae'r Nodau Llesiant wedi'u hymgorffori yn y Genhadaeth Economaidd a'r cynnydd tuag at economi llesiant. Gan gydnabod bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel cyrff annibynnol, wedi'u rhwymo gan y Ddeddf ond mai mater iddynt hwy yw sut maent yn ei chymhwyso, rydym yn hapus i archwilio pa gamau pellach y gellir eu cymryd.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 36. Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus sicrhau bod gan bob cymuned yng Nghymru fynediad at ganolbwynt atgyweirio ac ailddefnyddio lleol erbyn 2035. | Derbyn | Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru hybiau ailddefnyddio yn eu hardal, neu maent wrthi'n eu datblygu, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ehangu rhwydwaith o gaffis atgyweirio gwirfoddol a llyfrgelloedd pethau ledled Cymru.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| Bwyd | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 37. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu cynllun gwydnwch bwyd cenedlaethol i sicrhau mynediad cyfartal at ddiet lleol, fforddiadwy, iach a chynaliadwy. Dylid integreiddio bwyd a diet i ddyletswyddau, nodau a dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn gosod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd lleol, iachach a chynaliadwy. Mae Bwyd o Bwys yn amlinellu cydweithrediad trawsbolisi. Mae swyddogion yn agored i weithio gyda'r Comisiynydd i ymgorffori bwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| 38. Dylai Llywodraeth Cymru ehangu Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn hyd at 16 oed, gan sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys plant o aelwydydd nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus, yn gallu cael gafael ar fwyd iach a chynaliadwy yn yr ysgol. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein rhwymo i adolygu cymhwystra am brydau ysgol am ddim i'r graddau y mae adnoddau'n caniatáu. Rydym yn meithrin dealltwriaeth werthfawr drwy gyflwyno ein cynnig cyffredinol ar gyfer ysgolion cynradd, a allai lywio newidiadau yn y dyfodol pe bai cyllideb ar gael. |
| 39. Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes ar draws holl ysgolion Cymru, gan sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn llythrennog mewn bwyd ysgol, gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gynnal diet iach a chynaliadwy. | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi dysgwyr i fyw bywydau iach, egnïol. Mae'r Maes Iechyd a Lles gorfodol yn cynnwys dysgu am faeth a deiet cynaliadwy, ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod adnoddau addysgu ar gael ar Hwb. |
| 40. Dylai pob Awdurdod Lleol ddatblygu cynllun gwydnwch bwyd lleol mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Bwyd Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Strategaeth Bwyd Cymunedol arfaethedig yn darparu cymorth hirdymor i ddatblygu'r cynlluniau hyn. | Derbyn mewn egwyddor | Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Partneriaethau Bwyd Lleol tan fis Mawrth 2028, gan flaenoriaethu cysylltiadau strategol â chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn archwilio eu rôl mewn cynlluniau gwydnwch lleol yn y dyfodol fel rhan o gynllunio strategol ehangach. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 41. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pob pryd ysgol am ddim yn cynnwys o leiaf ddau ddogn o lysiau tymhorol a gynhyrchwyd yn lleol ac yn gynaliadwy. Dylai awdurdodau lleol ymuno â rhaglen Llysiau Cymru mewn Ysgolion i adeiladu cadwyni cyflenwi garddwriaeth lleol gwydn. | Derbyn mewn egwyddor | Yn ddiweddar, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer diwygiadau i'r Rheoliadau a'r Canllawiau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, gan gynnig dau ddogn dyddiol o lysiau mewn prydau ysgolion cynradd, gyda mwy o amrywiaeth wythnosol. Bydd rheoliadau wedi'u diweddaru yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn bo hir.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 42. Dylai pob corff cyhoeddus leihau neu ddileu'r ddarpariaeth o grwpiau bwyd y gellir eu categoreiddio fel 1) Bwydydd wedi'u Prosesu'n Iawn (UPF) a hefyd 2) sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr (HFSS) o'u safleoedd, megis ysgolion, ysbytai, canolfannau hamdden a chartrefi gofal. Dylai cyrff cyhoeddus wahardd hysbysebu a hyrwyddo'r grwpiau bwyd hyn o bob man hysbysebu a marchnata cyhoeddus. | Derbyn mewn egwyddor | Mae cyngor deietegol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar fwyd wedi'i brosesu helaeth, yn cael ei lywio gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg. Rydym yn cefnogi'r sector cyhoeddus i ddarparu bwyd iachach a chyflwyno cyfyngiadau hysbysebu, ac yn cefnogi busnesau i fynd i'r afael a materion maeth. Rydym yn bwriadu gosod rheoliadau yn ystod tymor y Senedd hon i helpu plant i gael mynediad at fwyd iachach yn yr ysgol.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 43. Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i gyflwyno cynllun talebau ffrwythau a llysiau ffres Cymreig ar gyfer aelwydydd incwm isel, gan | Yn ystyried hyn yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol | Mae Cychwyn Iach yn darparu cardiau rhagdaledig i deuluoedd cymwys i brynu ffrwythau a llysiau, llaeth a fformiwla fabanod mewn mannau gwerthu sy'n derbyn Mastercard®, gan gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| helpu teuluoedd i fforddio bwyd maethlon tra'n cefnogi tyfwyr bwyd lleol. | | marchnadoedd lleol. Mae hyn yn hybu mynediad at gynnyrch ffres, busnesau lleol, a llai o filltiroedd bwyd.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Cyllid** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 44. Dylai Llywodraeth Cymru glustnodi cyllid ar gyfer atal sy'n cynyddu dros amser. | Gwrthod | Mae clustnodi cyllid yn lleihau ymreolaeth sefydliadau dros eu cyllidebau. Mae ynysu cyllid atal yn deg yn anodd ac mae perygl iddo danseilio ymdrechion a chyfrifoldebau atal ehangach y mae'n rhaid i sefydliadau eu rheoli'n effeithiol |
| 45. Dylai Llywodraeth Cymru ddwyn y broses o bennu'r gyllideb ymlaen a chynhyrchu setliadau ariannu aml-flwyddyn. | Derbyn mewn egwyddor | Rydym o blaid lleihau ansicrwydd o ran ariannu, ond rhaid inni weithredu o fewn cyfyngiadau. Mae digwyddiadau cyllidol a chylchoedd etholiadol y DU yn effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gyflawni setliadau amlflwyddyn, gan gyfyngu ar hyblygrwydd a chynllunio tymor hir. |
| 46. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod eu cyllidebau blynyddol yn erbyn dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru (gan ddilyn modelau tebyg yng Ngweriniaeth Iwerddon a Dinas Strasbwrg). | Amherthnasol | Nid ydym yn gorfodi cyrff cyhoeddus i sicrhau bod eu cyllidebau yn cyd-fynd yn uniongyrchol â dangosyddion cenedlaethol, gan y gallai hyn gyfyngu ar hyblygrwydd. Yn hytrach, rydym yn eu hannog i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, gan ddefnyddio'r dangosyddion fel fframwaith arweiniol lle bo hynny'n briodol. |
| 47. Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad o atal y cytunwyd arni rhwng | Derbyn mewn egwyddor | Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o atal, mae'n bosibl na fydd gorfodi un dull mapio yn adlewyrchu |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a fy swyddfa i fapio eu gwariant ataliol a buddsoddi'n gynyddol tuag at atal sylfaenol. | | amrywiaeth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i hyrwyddo dulliau hyblyg o atal, sy'n benodol i'r cyd-destun, ar draws sectorau.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |

| **Mae'r Dyfodol Nawr** | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Esboniad** |
| 48. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth a chynllun ar gyfer gweithlu sector cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, gan nodi'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol mewn byd sy'n newid. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei gweledigaeth ar gyfer 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'. Rydym am weithio ar draws sectorau i rannu arbenigedd, symleiddio prosesau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni dros Gymru.<br><br>Yn ogystal, bydd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2026/27 ar y cynharaf yn rhoi cyfle i ailbenderfynu ar ddull Llywodraeth Cymru o ddatblygu a gweithredu egwyddorion rhagargoeli yn ei holl ddatblygiadau polisi. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Hwb Dyfodol i benderfynu sut y gellir datblygu hyn drwy ddefnyddio arferion rhagargoeli byd-eang cryf megis y rhai a ddefnyddir yn y Ffindir, Singapore, yr Alban a Phortiwgal. |
| 49. Dylai pob corff cyhoeddus greu gweledigaeth a chynllun hirdymor ar gyfer dyfodol pob sefydliad, wedi'u cynllunio ar y cyd â phartneriaid a chymunedau. | Derbyn | Mae Bwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnwys hyn yn y CLIP ôl-2025 ar ei newydd wedd. Yn ddiweddar, cydgynhyrchodd Llywodraeth Cymru Weledigaeth Strategol a grëwyd ar y cyd gan weithio gyda |

| | | |
|---|---|---|
| | | chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |
| 50. Dylai pob corff cyhoeddus benodi Hyrwyddwr Dyfodol i ymgysylltu â Hwb Dyfodol, gan wreiddio meddylfryd y dyfodol ar draws eu sefydliad. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn aelod craidd o'r strwythur llywodraethiant hwn ac mae ganddi adnodd penodedig yn yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar lywodraethiant Hwb Dyfodol ond bydd nawr yn ymgorffori swyddogaeth 'Hyrwyddwr Dyfodol' hefyd.<br><br>Yn ogystal, bydd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2026/27 yn rhoi cyfle i ailbenderfynu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran datblygu a gweithredu rhagargoeli ar draws datblygiadau polisi a strwythurau sefydliadol ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Hwb Dyfodol i benderfynu sut y gellir datblygu hyn drwy ddefnyddio arferion rhagargoeli byd-eang cryf megis y rhai a ddefnyddir yn y Ffindir, Singapore, yr Alban a Phortiwgal.<br><br>Rydym hefyd yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus. |